



Gorffennol Digidol Digital Past - 2020

GORFFENNOL DIGIDOL:

Mae i gyd yn ymwneud â Gwybodaeth, Stori a Chof

Marinos Ioannides, Cadair UNESCO ar Dreftadaeth Ddiwylliannol Ddigidol, [Prifysgol Technoleg Cyprus](#)



© Dim ond gyda chaniatâd yr awdur.

Canlyniad gwneud arolwg o wrthrych cyffyrddadwy fel arteffact, heneb neu safle fu ailgread 3D manwl gywir o'i adeiladwaith geometregol rhithwir, ond nid, mae'n siwr, o'i werth hanesyddol a'i berthynas â'i gymdeithas. Yn y cyflwyniad hwn fe ganolbwyntir ar weithgareddau ymchwil cyfredol ym maes dogfennaeth gyfannol 3D ac, yn fwyaf arbennig, ar gyfoethogi 3D gyda semanteg a chynhyrchu gwybodaeth benodol a chof unigryw y gwrthrych. Yn ogystal, trafodir heriau fel y safoni coll yn y ddogfennaeth 3D a chyflwyno offer Dealltwriaeth Artiffisial i faes Treftadaeth Ddiwylliannol.

[Gorffennol Digidol 2020](#): Technolegau newydd ym meysydd treftadaeth, dehongli ac estyn-allan
12 & 13 o Chwefror 2020, Canolfan y Celfyddydau Aberystwyth, Aberystwyth

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn y Saesneg | This document is also available in English.

Trafodir y canlynol:

- Pwy ydym ni?
- Beth rydym ni'n ei wneud?
- Y Risgiau os na fyddwn yn dogfennu'n ddigidol.
- Y diffiniad o Wybodaeth, Cof, Stori a Hunaniaeth.
- Pryd mae gan heneb "Werth Cyffredinol ac Eithriadol"?
- Sut mae creu dogfennaeth o'r fath a sut y gellir ei defnyddio neu ei haildefnyddio?
- Sut gall y Gwrthrych, Stori, Gwybodaeth, Cof hwn gael ei 'gynaeafu' i Europeana?
- Beth yw'r Heriau ar ddechrau'r 21ain ganrif?



© Dim ond gyda chaniatâd yr awdur.

Bywgraffiad

Astudiodd Marinos Ioannides ym Mhrifysgol Stuttgart yn yr Almaen. Ei faes arbenigol ar gyfer ei BSc a'i MSc mewn Cyfrifiadureg oedd ystorfeydd digidol, ac ar gyfer ei PhD bu'n astudio peirianeg wrthdro 3D, gan ddatblygu un o'r peiriannau ailgreu cyntaf. Ers 1989 mae dogfennaeth 3D ar gyfer Treftadaeth Ddiwylliannol wedi cael ei holl sylw. Ef yw cyfarwyddwr y Gadair UNESCO newydd ei sefydlu ar Dreftadaeth Ddiwylliannol Ddigidol a chydlynnydd Cadair ERA yr UE ar Dreftadaeth Ddiwylliannol Ddigidol: Mnemosyne. Prif ddi-ddordeb ymchwil presennol Marino yw Dogfennaeth Gyffannol mewn Treftadaeth Ddigidol.

[Gorffennol Digidol 2020](#): Technolegau newydd ym meysydd treftadaeth, dehongli ac estyn-allan
12 & 13 o Chwefror 2020, Canolfan y Celfyddydau Aberystwyth, Aberystwyth

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn y Saesneg | This document is also available in English.